**Pwyllgor ar Gyfartaledd Cyfle Comisiwn EOC-05-99(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 9 Rhagfyr 1999

**Amser:** 9.30 am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn Bresennol: Aelodau**

Jane Hutt (Cadeirydd) Bro Morgannwg
Christine Chapman Cwm Cynon
Glyn Davies Canolbarth a Gorllewin Cymru
Richard Edwards Preseli Sir Benfro
Edwina Hart Gyr
Carwyn Jones Pen-y-bont ar Ogwr
Gareth Jones Conwy
Helen Mary Jones Llanelli
David Melding Canol De Cymru
Janet Ryder Gogledd Cymru
Kirsty Williams Brycheiniog a Maesyfed

**Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor**

Teresa Rees Comisynydd Cyfle Cyfartal Cymru
Kate Bennett Comisiwn Cyfle Cyfartal
Howard John Anabledd Cymru
Judith Jones Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol

**Swyddogion**

Kate Cassidy Adain Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Charles Willie Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus

Andrew George Clerc
Julie Bragg Dirprwy Glerc

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EOC-05-99 (p.1)**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod olaf y Pwyllgor cyn gwyliau'r Nadolig. Wrth gyflwyno'i hadroddiad, tynnodd sylw arbennig at ddau fater:

- y cyfarfod a gafodd â Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar 25 Tachwedd i drafod materion mewnfudo a lloches. Roedd person â phrofiad o'r materion hyn yn cael ei secondio i'r Uned Polisi Cyfartaledd;

- arolwg Herio Arweinyddiaeth y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi siarad yn y digwyddiad ynglþn ag ymwneud y Cynulliad yn y fenter. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth gylchlythyru ei destun i'r aelodau. Dywedodd hefyd ei bod yn bwriadu ysgrifennu at Gadeiryddion pob Ymddiriedolaeth NHS ac Awdurdod Iechyd yng Nghymru i'w hannog i gymryd rhan. Byddai papurau o'r sesiwn briffio diweddar ar gynhwysiad cymdeithasol yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Awgrymwyd y byddai adroddiad ar weithgareddau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â mewnfudo a lloches yn ddefnyddiol yn y cyfarfod nesaf. Dylai hyn yn adlewyrchu lle y disgwylid i geiswyr lloches gael eu lletya. Yr awgrym diweddaraf o'r Swyddfa Gartref oedd y byddai tua 300 o geiswyr lloches yn cyrraedd yng Nghymru rhwng Chwefror a Mawrth 2000, yn bennaf mewn ardaloedd lle'r oedd cymuned ethnig briodol eisoes yn bodoli.

1.3 Yn y cyfarfod diwethaf codwyd pwynt ynglþn â nifer y swyddogion diogelwch o leiafrifoedd du ac ethnig a gyflogwyd yn uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r rhai oedd ar ddyletswydd gyda'r nos ac ar benwythnos. Ni fwriadwyd rhoi unrhyw feirniadaeth o'r cwmni a oedd yn cyflogi staff y tu allan i oriau gwaith. Canfu'r swyddogion mai ychydig o wahaniaeth mewn cyfraddau tâl oedd rhwng y ddau grp. O ystyried nifer isel y rhai o leiafrifoedd du ac ethnig a oedd yn gwneud cais i weithio gyda'r Cynulliad, teimlwyd y gellid cymryd ymagwedd fwy proactif i annog mwy o geisiadau.

1.4 Cafodd llythyr gan drefnwyr Cyngres Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang ei ddosbarthu i'r Aelodau a oedd yn darparu eglurhad ar nifer o bwyntiau a gafodd eu codi yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Adroddodd Charles Willie bod swyddog o'r Cynulliad bellach wedi ei aseinio i weithio ar y Gyngres tan fis Mawrth. Byddai George Craig, Uwch Gyfarwyddwr y Cynulliad, yn gofyn am farn y Pwyllgor cyn bo hir ynglþn â noddi gweithdy yn y digwyddiad. Mynegwyd pryder unwaith eto ynglþn â'r ffaith y byddai aelod o Lywodraeth Tsiena'n areithio yn y Gyngres, yn enwedig yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd yn ystod ymweliad Prif Weinidog Tsiena â Llundain yn ddiweddar. Cytunodd y Cadeirydd i fwydo'r pryder hwn yn ôl i George Craig a'r trefnwyr ac i gynnig gwasanaethau Anabledd Cymru er mwyn cynghori ar leoliadau hygyrch ar gyfer y digwyddiad.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen Waith**

2.1 Adroddodd y swyddogion fod pob un o'r 55 o gyfweliadau â Phenaethiaid Adain bellach wedi'u cynnal a'u bod hefyd wedi siarad â'r Cyfarwyddwyr Grp. Roeddent bellach yn gweithio ar ddadansoddi'r cyfweliadau fel bod modd i'r Grwpiau baratoi adroddiadau i Ysgrifenyddion y Cynulliad ac wedyn i Bwyllgorau.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ymysg Aelodau'r Cynulliad Papur: EOC-05-99(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Charles Willie y papur hwn a oedd yn gosod y cynigion i hybu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ymysg AauC, ac i sicrhau bod hyfforddiant ar gydraddoldeb yn hanfodol i bawb a oedd yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Adroddodd fod y swyddogion yn paratoi holiadur sylfaenol ynghylch argaeledd Aelodau'r Cynulliad a'u profiad blaenorol a'u gwybodaeth am faterion cydraddoldeb er mwyn targedu hyfforddiant yn effeithiol. Gobeithiai ei ddosbarthu cyn gwyliau'r Nadolig. Cynhaliwyd trafodaethau eisoes â darpar ddarparwyr hyfforddiant.

3.2 Croesawyd y cynigion gan yr aelodau. Roeddent yn awyddus i weld yr hyfforddiant yn dechrau cyn gynted â phosibl yn enwedig mewn perthynas â'r broses penodiadau cyhoeddus gan y byddai nifer o swyddi i'w hailbenodi yn y Flwyddyn Newydd. Teimlwyd y gallai'r Cynulliad osod esiampl i sefydliadau eraill drwy ymgymryd â'r ymarfer hwn ac y gallai fod yn briodol o bosibl i gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ymysg yr Aelodau mewn grwpiau plaid. Fodd bynnag, byddai'r sesiynau ar gyfer aelodau paneli penodiadau cyhoeddus yn drawsbleidiol a byddai'r swyddogion perthnasol hefyd yn cael eu cynnwys. Byddai ansawdd yr hyfforddwyr yn bwysig iawn a dylid cymryd gofal wrth eu dewis.

3.3 Adroddodd y Cadeirydd fod sesiwn briffio wedi'i gynnal yn ddiweddar ar gyfer yr ymgynghorwyr annibynnol ar benodiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â Race Equality First a swyddogion. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da ac roedd yn bwysig sicrhau bod yn rhan hon o'r hyfforddiant ar waith yn gyflym. Cynigiodd y gallai seminarau eraill ganolbwyntio ar bynciau penodol megis y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Gellid nodi materion eraill yn sgîl yr ymatebion i'r holiadur.

3.4 Wrth drafod, ystyriodd yr aelodau gynnig i gynnal Wythnos Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb, wedi'i chysylltu'n bennaf ag adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cynulliad. Codwyd y posibilrwydd o'i gysylltu â lansio'r Comisiwn Hawliau Anabledd neu Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ym mis Mawrth. Gallai'r Wythnos gynnwys sesiwn codi ymwybyddiaeth i bob Aelod a gallai hefyd gwmpasu adborth ar gynnydd y Cynulliad o ran gweithredu argymhellion Adroddiad Macpherson i lofruddiaeth Stephen Lawrence. Trafodwyd yr olaf mewn cyfarfod

blaenorol ac roedd cyfarfod o Weithgor y Pwyllgor hefyd yn cael ei drefnu.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Y Bwlch Cyflogau – Cyflwyniad gan Teresa Rees, Comisynydd Cyfle Cyfartal Cymru a Kate Bennett, Cyfarwyddwraig Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal.**

4.1 Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y bwlch rhwng cyflogau dynion a merched. Roedd hyn yn parhau'n broblem arbennig yng Nghymru 30 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf Cyflog Cyfartal ddod i rym gydag enillion merched yn ôl yr awr ond yn 84% o rai dynion. Mae bron hanner merched Cymru yn ennill lla na £250 yr wythnos tra bod chwarter dynion yn unig yn ennill llai na'r trothwy hwn. I'r gwrthwyneb mae hanner dynion Cymru yn ennill mwy na £350 yr wythnos ond dim ond hanner y gweithwyr sy'n ferched a gaiff eu cynnwys yn y categori hwn.

- Cyfiawnder cymdeithasol – Dylid gwobrwyo merched yn deg ac yn gyfartal am eu gwaith;

- Mynd i'r afael â thlodi a hunan-ddarpariaeth – Mae merched yn ennill hanner cymaint â dynion yn ystod eu bywydau gwaith a chaiff eu henillion eu gwario'n anghyfartal ar eu plant a'r teulu. Byddai codi cyflogau merched yn cynyddu lefel y ddarpariaeth i blant ac yn lleihau'r angen am gymorth gan y wladwriaeth, megis prydau ysgol am ddim;

- Gallu cystadleuol – yn ôl y dystiolaeth, roedd busnesau a dalai cyflogau teg i ferched hefyd yn fwy cystadleuol.

4.2 Roedd achosion amrywiol o gyflogau anghyfartal. Anaml roedd y bwlch cyflogau yn bodoli yn sgîl gwahaniaethu uniongyrchol y diwrnodau hyn, ond gallai systemau cyflog ynddynt eu rhan eu hunain wahaniaethu'n annheg yn ddiarwybod. Cyhoeddodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal God Ymarfer ar gyflogau i helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â hyn. Gallai statws gwaith rhan-amser a'r angen i gydbwyso gwaith a'r cartref hefyd gyfrannu tuag at gyflogau anghyfartal ac roedd y Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth wedi cyflwyno mesurau i ddechrau mynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd y nenfwd wydr yn parhau'n gyffredin yng Nghymru, yn enwedig mewn swyddi bancio a dysgu. Roedd gwahanu swyddi yn parhau i fod yn ffactor arwyddocaol wrth bennu lefelau cyflogau. Yn gynharach yn y flwyddyn cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad, ' Yn Wahanol ond yn Gyfartal', a ddangosodd fod merched, er eu bod yn gyson yn perfformio'n well na bechgyn yn academaidd, yn cael cymwysterau is. Roedd merched o hyd yn cymryd swyddi ystrydebol a oedd yn llwyddo i barhau'r cylch cyflogau isel i ferched.

4.3 Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn ymgymryd â nifer o fentrau er mwyn helpu i dorri'r cylch hwn:

- canolbwyntio ar y bwlch rhyw drwy argymell arolygon cyflogau o fewn sefydliadau ac amlygu'r canlyniadau;
- gwneud cyflogwyr yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer ar gyflogau;

- gwneud cyflog cyfartal yn ganolbwynt cynhadledd Cyfnewid Cydraddoldeb Cymru yn y Gwanwyn; a
- cymryd rhan mewn tasglu drwy'r DU gyfan ar elfennau gwahaniaethol systemau cyflog.

4.4 Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai'r Cynulliad gynnal archwiliad o'i drefniadau cyflog ei hunan yn y lle cyntaf. Byddent hefyd am i'r Cynulliad annog ei Gyrff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad (CCNC) i gynnal archwiliadau tebyg a'u gwneud yn nodwedd orfodol o gontractau gyda chyflenwyr. Gallai'r Cynulliad hefyd helpu drwy herio ystrydebau ym myd addysg ac annog merched i gael dyheadau uwch. Pwysleisiodd y Comisiwn fod angen ymagwedd strategol o ran darparu gofal plant er mwyn sicrhau y byddai'n cwmpasu Cymru gyfan. Darparodd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd hefyd gyfle i gyflwyno cydraddoldeb i brojectau a'r sefydliadau a fyddai'n cynnig am arian. Cymerodd Teresa Rees ran yn ddiweddar mewn seminar yn Stryd Downing ar 'Ferched yn yr Economi Newydd' a theimlodd y byddai'n arbennig o fuddiol cynnal digwyddiad tebyg i ganolbwyntio ar economi Cymru.

4.5 Mewn trafodaeth eang ei chwmpas, teimlwyd bod nifer o ffactorau'n hollbwysig o ran sicrhau cyflog cyfartal. Roedd yn bwysig sicrhau bod y negeseuon cynnar yn iawn. Teimlwyd y byddai canolbwyntio ar addysg, hyd yn oed mor gynnar â'r lefel feithrin, ac yn enwedig ar roi profiad gwaith nad oedd yn draddodiadol i fechgyn a merched yn fuddiol. Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gymryd rhan mewn prentisiaethau modern a dechrau swydd ar lefel uwch o'r herwydd. Roedd cyflawniad isel bechgyn a merched fel ei gilydd mewn ardaloedd llai llewyrchus yn fater addysgol arall. Dylid bwydo'r ystyriaethau hyn yn ôl i'r ddau bwyllgor addysg. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion gynhyrchu papur ynglþn â threfniadau cyflog y Cynulliad Cenedlaethol a'r CCNC, ynghyd â mater cydymffurfio contractau.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cytundeb Amsterdam**
**Papur: EOC-05-99 (p.3)**

5.1 Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd bod y papur hwn wedi'i ddarparu er gwybodaeth er nad oedd y sefyllfa yn y Comisiwn Ewropeaidd o ran Cytundeb Amsterdam eto'n glir. Gobeithiwyd trefnu cynrychiolaeth lawnach yn y Flwyddyn Newydd. Er gwaethaf y ffaith nad oedd trafodaethau Ewropeaidd na materion cydraddoldeb yn faterion datganoledig, ystyriwyd ei fod yn bwysig gan Lywodraeth y DU i gael persbectif Cymreig.

5.2 Cytunwyd gwahodd y Comisiynydd Ewropeaidd ar Gyflogaeth a Materion Cymdeithasol, sef Mrs Anna Diamantopoulou, i gyfarfod â'r Pwyllgor i drafod y Cytundeb ac i ddangos iddi sut y byddai cynllun gweithredu'r Pwyllgor yn cael ei roi ar waith. Cydnabuwyd hefyd bod gan Gymru gyfleoedd amlwg i brif-ffrydio cydraddoldeb oherwydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r ffaith y golygai Adran 107 Deddf Llywodraeth i Gymru fod darpariaethau'r Ddeddf Iawnderau Dynol eisoes yn berthnasol i'r Cynulliad.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Sefyllfa Gyfreithiol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

6.1 Gwahoddwyd Charles Wille gan y Cadeirydd i roi blas o'r materion sy'n gysylltiedig ag archwiliad y Pwyllgor o'r Cyrff hyn. Bwriadwyd trefnu papur a thrafodaeth lawn ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Eglurodd fod gan bob Corff fframwaith cyfreithiol gwahanol sy'n rheoli ei berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol. Golygai hyn y byddai Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth i Gymru yn cael ei chymhwyso'n wahanol ac o'r herwydd nad oedd un ffordd swyddogol o sicrhau bod y Cyrff yn ystyried ac yn cymhwyso arferion cydraddoldeb. Roedd gan y cynulliad ber cyfeiriad dros rai cyrff ond nid dros rai eraill. Fodd bynnag, roedd pob Corff yn ddarostynedig i Arolygon Rheoli a Pherfformiad bob pum mlynedd y gellid eu defnyddio i archwilio cydraddoldeb. Efallai y byddai'n briodol ystyried cydraddoldeb pan fyddai'r Pwyllgorau Pwnc ac Ysgrifenyddion y Cynulliad yn archwilio Cynlluniau Corfforaethol y Cyrff ac yn anfon llythyron 'Annwyl Brif Weithredydd' atynt yn nodi'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Nes bod mwy o gyngor cyfreithiol penodol ar gael, awgrymodd y dylai'r dogfennau ffurfiol a'r arolygon hyn gynnwys dimensiwn cydraddoldeb sy'n gosod fframwaith ymarferol y gellir gweithredu arno.

6.2 Cytunodd yr aelodau fod y camau dros dro arfaethedig hyn yn darparu ffordd briodol ymlaen. Roedd yn bwysig dylanwadu ar agenda cydraddoldeb y Cyrff gan fod gan lawer o'u camau gweithredu, megis dyfarnu grantiau ar gyfer projectau, effeithiau eang a pharhaol ar gymunedau. Awgrymwyd hefyd y gellid rhoi pwyslais ar gydraddoldeb wrth ddewis ymgeiswyr i lenwi swyddi cyhoeddus gan y byddai eu dylanwad yn treiddio drwy'r sefydliad. Codwyd pryderon penodol yngln ag ystyriaethau lleiafrifoedd du ac ethnig yn yr NHS a'r cwricwlwm. Cafwyd adroddiad gan Judith Jones o'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol am y Gynhadledd Herio Arweinyddiaeth ddiweddar a fu'n amlygu diffyg ymwneud yr NHS yn y fenter. Cododd bryderon hefyd ynglþn â datblygiadau diweddar yn yr NHS mewn perthynas â phenodi gweithiwr o leiafrifoedd ethnig i'r Gwasanaeth. Ystyriodd y Cadeirydd fod ei chynnig i ysgrifennu at Brif Weithredwyr yr NHS ynglþn â'r Her Arweinyddiaeth yn berthnasol yma. Cynigiodd ysgrifennu at ACCAC i grybwyll materion cwricwlwm a gafodd eu hamlygu.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Beijing Plus Five : 2000 – Cyflwyniad gan Julie Ashdown, Uned y Merched, Swyddfa'r Cabinet**

7.1 Amlinellodd Julie Ashdown gyfraniad y DU i gynhadledd Beijing Plus Five y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ym mis Mehefin, 2000. Byddai'r digwyddiad yn canolbwyntio ar bwnc Llwyfan Gweithredu ar ferched y Cenhedloedd Unedig a oedd wedi nodi 12 o feysydd hanfodol fel testun pryder gan gynnwys 'Merched a Thlodi' a 'Merched a gwrthdaro arfog'. Roedd ehangder y meysydd hyn yn adlewyrchu profiadau ac amodau byw amrywiol merched o fewn aelodaeth byd-eang y Cenhedloedd Unedig.

7.2 Cafwyd proses ymgynghori hir a chymhleth i fwydo barn a phrofiadau i'r ddogfen derfynol a fyddai'n mynd i'r gynhadledd. Byddai barn y DU, y byddai Comisiwn Cenedlaethol y Merched

dros y DU gyfan yn ei chrynhoi ar gyfer sefydliadau anlywodraethol a'i chyflwyno i Uned y Merched, yn cael ei chyflwyno ar gyfer ei chynnwys mewn dogfen a gynhyrchir gan yr Undeb Ewropeaidd. Penodwyd Audrey Jones o Glymblaid Genedlaethol Merched Cymru yn ddiweddar i Gomisiwn Cenedlaethol Merched y DU. Byddai'r ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i'r gynhadledd gan Bortiwgal gan mai hwy a fyddai'n gyfrifol am Lywyddiaeth Ewrop yr adeg honno.

7.3 Byddai dirprwyaeth y DU dan arweinyddiaeth y Gweinidog dros Ferched, Y Farwnes Jay, gyda chynrychiolwyr o Uned y Merched ac adrannau eraill o'r llywodraeth. Nid oedd yn glir ar hyn o bryd pwy a fyddai'n cynrychioli'r Cynulliad ond roedd amser o hyd i gynnwys natur arbennig materion merched Cymru yn y broses ymgynghori. Roedd Uned y Merched o'r farn fod Archwiliad Cydraddoldeb y Cynulliad yn ymgeisydd arbennig o gryf o ran cael ei gynnwys yng nghyflwyniad terfynol y DU.

7.4 Mynegodd yr aelodau bryder wrth ystyried y posibilrwydd mai un gwas sifil yn unig a fyddai'n cynrychioli Cymru. Er y derbyniwyd mai dim ond y cynrychiolydd o Bortiwgal a'r Farwnes Jay a fyddai mewn gwirionedd yn siarad yn y gynhadledd, cydnabu'r Aelodau y gellid cyflawni llawr o fusnes ar gyrion y digwyddiad a bod gan Gymru agenda benodol a oedd ar wahân i un y DU. Cytunwyd y dylid ailystyried lefel ymwneud Cymru, yn arbennig o ystyried bod Cymru wedi cael mwy o lwyddiant o ran hyrwyddo cydraddoldeb na rhannau eraill o'r DU.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-04-99(min)**

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

8.2 Gwahoddwyd yr Ysgrifennydd Cyllid gan y Cadeirydd i hysbysu'r Pwyllgor ynglþn â chyfarfod a gynhaliwyd ganddi â phenseiri adeilad newydd y Cynulliad a Howard John ar 2 Rhagfyr. Mynegodd yr Ysgrifennydd Cyllid ei gwerthfawrogiad o'r gwaith caled a wnaed gan Anabledd Cymru yn eu cyflwyniad ar fynediad i'r penseiri. O ganlyniad i hyn, gwnaed newidiadau sylweddol i'r cynlluniau gwreiddiol. Byddai'r cynlluniau diwygiedig yn awr yn cael eu rhannu rhwng arweinwyr y pleidiau a byddai Anabledd Cymru yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau pellach. Byddai ymgynghori ar y raddfa fwyaf eang wedyn yn cael ei gynnal. Pe byddai angen gwneud newidiadau pellach, byddai modd iddynt gael eu cynnwys.

8.3 Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.